

**DYDD IAU, 13 EBRILL 2023**

**AT: HOLL AELODAU'R CYNGOR SIR**

**YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD AML-LEOLIAD Y CYNGOR SIR A GYNHELIR YN Y SIAMBR, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN SA31 1JP AC O BELL AM 10.00 YB, DYDD MERCHER, 19EG O EBRILL, 2023 ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM**

*Jake Morgan*

**DIRPRWY BRIF WEITHREDWR**

GELLIR GWYLIO'R CYFARFOD AR WEFAN Y CYNGOR DRWY'R DDOLEN CANLYNOL:-  
[HTTPS://CARMARTHESHIRE.PUBLIC-I.TV/CORE/PORTAL/HOME](https://carmarthenshire.public-tv/core/portal/home)

Swyddog Democraidd:	Emma Bryer
Ffôn (Ilinell uniongyrchol):	01267 224029
E-bost:	EBryer@sirgar.gov.uk

Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive*,  
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP  
County Hall, Carmarthen. SA31 1JP

# AGENDA

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.
3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.
4. CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD, AELODAU'R CABINET NEU'R PRIF WEITHREDWR (OS OES RHAI)
5. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFODYDD Y CYNGOR CYNGOR A GYNHALIWDYD AR Y :-
  - 5.1 1AF MAWRTH 2023 5 - 22
  - 5.2 8FED MAWRTH 2023 23 - 32
6. YSTYRIED YR ENWEBIADAU AR GYFER SWYDD CADEIRYDD Y CYNGOR AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2023-24
7. YSTYRIED YR ENWEBIADAU AR GYFER SWYDD IS-GADEIRYDD Y CYNGOR AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2023-2024
8. PENODI PERSON LLEYG I'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO. 33 - 36
9. CYNLLUN LLESIANT BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR GAERFYRDDIN: Y SIR GÂR A GAREM 37 - 78
10. YSTYRIED ARGYMHELLION Y CABINET O RAN Y MATER CANLYNOL:
  - 10.1 POLISI CARTREFI GWAG - EIN DULL O DDEFNYDDIO CARTREFI GWAG UNWAITH ETO 79 - 110
11. DERBYN ADRODDIADAU CYFARFODYDD Y CABINET A GYNHALIWDYD AR Y :-
  - 11.1 13EG MAWRTH 2023 111 - 116
  - 11.2 27AIN MAWRTH 2023 117 - 126
12. YSTYRIED Y RHYBUDDION O GYNNIG CANLYNOL:-
  - 12.1 RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORWYR EDWARD THOMAS A ARWEL DAVIES

“Mae'r cyngor hwn yn gresynu at benderfyniad Banc Barclays i gau cangen Llandeilo ar 23 Mehefin. Mae'r penderfyniad hwn yn gadael rhan fawr o'r sir heb gyfleusterau bancio. Mae'r cyngor hwn yn gofyn i Barclays adolygu ei benderfyniad neu o leiaf ddarparu opsiynau amgen digonol i gwsmeriaid ymdrin â'r banc.”

## **12.2 RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORWYR HEFIN JONES, EDWARD THOMAS, ROB JAMES A JOHN JAMES**

“Mae'r Cyngor hwn:

1. Yn gofyn i Lywodraeth Cymru ailystyried ei sefyllfa i roi terfyn ar y cymhorthdal o ran y cynllun brys ar gyfer y sector bysiau a'i ymestyn hyd nes bod gwasanaethau wedi cael eu hailstrwythuro'n briodol, a sicrhau na chaiff unrhyw ardal ei gadael heb fynediad rhesymol i drafnidiaeth gyhoeddus.
2. Hefyd, mae'n gofyn i gamau brys gael eu cymryd ar y cyd â'r awdurdod lleol hwn i flaenoriaethu buddsoddiad a gweithredu gwasanaethau bysiau a arweinir gan y galw (gwasanaethau megis bwcabus a galw a theithio) yn yr ardaloedd hynny y bydd colli'r cymhorthdal hwn yn effeithio arnynt, gan wneud hyn mewn modd strategol a hyblyg gan alinio'r ddarpariaeth gyda'r galw.
3. Yn nodi mai nod Cynllun a Phapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar gyfer Bws Cymru yw darparu gwasanaeth bws a fydd yn cael ei reoli a'i gynllunio er budd pennaf pobl Cymru ac yn gofyn bod dyddiad dechrau'r cynllun yn cael ei ddwyn ymlaen.”

## **13. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD:-**

### **13.1 CWESTIWN GAN Y PARCH ANGHARAD GRIFFITH M.A. I'R CYNGHORYDD GLYNOG DAVIES, AELOD Y CABINET DROS ADDYSG A'R GYMRAEG:-**

“Gyda chynnydd sylweddol yn y maint o blant sydd yn derbyn diagnosis swyddogol o PDA sef Pathological Demand Avoidance yn ran o'r proffeil Autistic, gai ofyn felly:-

Pa gynlluniau/ strwythurau sydd eisoes mewn bodolaeth gyda chi fel Adran Addysg i sicrhau tegwch addysgiadol hir a byr dymor i'r plant a pha adnoddau a hyfforddiant a dealltwriaeth sydd gyda chi mewn bodolaeth i chi fel Staff Adran Addysg, staff ysgolion a chanolfannau ac yn wir fel Cyngor'.”

## **14. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU (NID OES DIM WEDI DOD I LAW):-**

## **15. CYMARADWYO Y NEWIDIADAU CANLYNOL I AELODAETH PWYLLGORAU**

### **15.1 MAE'R GRWP LLAFUR WEDI ENWEBU'R CYNGHORYDD COUNCILLOR ANTHONY LEYSHON YN LLE'R CYNGHORYDD JOHN JAMES AR Y PWYLLGOR CYNLLUNIO**

### **15.2 MAE'R GRWP LLAFUR WEDI ENWEBU'R CYNGHORYDD ROB EVANS YN LLE'R CYNGHORYDD JACQUELINE SEWARD AR Y PWYLLGOR CRAFFU IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

- 15.3 MAE'R GRWP LLAFUR WEDI ENWEBU'R CYNGHORYDD MICHAEL THOMAS YN LLE'R CYNGHORYDD NYSIA EVANS AR Y PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, CARTREFI AC ADFYWIO
- 15.4 MAE GRWP PLAID CYMRU WEDI ENWEBU'R CYNGHORYDD HEFIN JONES YN LLE'R CYNGHORYDD LLINOS DAVIES AR Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, POBL IFANC A'R GYMRAEG
- 16. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)
  - 16.1 PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, CARTREFI AC ADFYWIO - 23AIN O CHWEFROR 2023
  - 16.2 OPWYLLGOR CRAFFU LLE, CYNALIADWYEDD A NEWID HINSAWDD - 24AIN O CHWEFROR 2023
  - 16.3 PWYLLGOR SAFONAU - 27AIN O CHWEFROR 2023
  - 16.4 PWYLLGOR TRWYDDEDU - 28AIN O CHWEFROR 2023
  - 16.5 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 2AIL O FAWRTH 2023
  - 16.6 PWYLLGOR SAFONAU - 7FED O FAWRTH 2023
  - 16.7 PWYLLGOR CRAFFU IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL - 9FED O FAWRTH 2023
  - 16.8 PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - 17EG O FAWRTH 2023
  - 16.9 PWYLLGOR APELAU - 20FED O FAWRTH 2023
  - 16.10 PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, POBL IFANC A'R GYMRAEG - 24AIN O FAWRTH 2023
  - 16.11 PWYLLGOR CRONFA BENSIWN DYFED - 28AIN O FAWRTH 2023
  - 16.12 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 30AIN O FAWRTH 2023
  - 16.13 PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL - 31AIN O FAWRTH 2023
  - 16.14 PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - 31AIN O FAWRTH 2023

## DYDD MERCHER, 1 MAWRTH 2023

**PRESENNOL** Cyngorydd R.E. Evans (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

S.M. Allen	P. Cooper	C.A. Davies	B. Davies
G. Davies	K. Davies	L. Davies	M. Donoghue
L.D. Evans	N. Evans	P.M. Hughes	R. James
G.H. John	D. Jones	H. Jones	A. Lenny
N. Lewis	A. Leyshon	K. Madge	D. Nicholas
M. Palfreman	B.D.J. Phillips	D. Price	B.A.L. Roberts
E. Skinner	D. Thomas	E.G. Thomas	G.B. Thomas
M. Thomas	J. Tremlett	A. Vaughan Owen	

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

K.V. Broom	J.M. Charles	M.D. Cranham	D.M. Cundy
S.A. Curry	A. Davies	W.R.A. Davies	T.A.J. Davies
L.M. Davies	S.L. Davies	T. Davies	A. Evans
D.C. Evans	H.A.L. Evans	W.T. Evans	A.D. Harries
J.P. Hart	T.M. Higgins	J.K. Howell	P. Hughes-Griffiths
J.D. James	M. James	J.P. Jenkins	B.W. Jones
A.C. Jones	G.R. Jones	M.J.A. Lewis	A.G. Morgan
D. Owen	S.L. Rees	H.B. Shepardson	R. Sparks
F. Walters	P.T. Warlow	D.E. Williams	J. Williams

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**

W. Walters, Prif Weithredwr  
 C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol  
 J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau  
 G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant  
 A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff  
 P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)  
 L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith  
 G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd  
 R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol  
 L. Jenkins, Swyddog Cymorth y Cabinet  
 S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd  
 K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**

K. Evans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd Cynorthwyol  
 J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd  
 S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau  
 R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau

**Siambr - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 yb - 2.10 yp**

(Noder:

- Am 12:55pm tynnwyd sylw'r Cyngor at Reol 9 o Weithdrefn y Cyngor – Hyd y cyfarfod – ac, oherwydd y byddai'r cyfarfod wedi bod yn mynd rhagddo ers tair awr am 1:10pm, penderfynwyd gohirio ystyried y rheolau sefydlog, yn unol â Rheol 23.1 o Weithdrefn y Cyngor, er mwyn ystyried y materion a oedd yn weddill ar yr agenda.
- Hefyd cafodd y Cyngor 20 munud o egwyl am 12.55)

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr L. Bowen, C. Davies, H. Davies, S. Godfrey-Coles, E. Rees a J. Seward.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod	Math o Fuddiant
A. Vaughan-Owen	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Ei wraig yn bennaeth ar ysgol gynradd
L.M. Davies	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Ei gŵr yn dysgu fel Pennaeth Cerdd
N. Evans	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Ei merch yn gweithio i'r gwasanaeth llyfrgelloedd
R. Evans	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Ei ferch yn gweithio i'r gwasanaeth llyfrgelloedd
L.D. Evans	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Ei merch yn athrawes
H. Shepardson	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Ei ferch yn athrawes
H. Shepardson	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Aelod o'r Awdurdod Tân
G. Morgan	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Tenant yn Llynnoedd Delta
T. Higgins	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Ei nith yn gweithio yn y gwasanaeth llyfrgelloedd
D.C. Evans	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Ei wraig yn gweithio yng Nghanolfan Gyswllt y Cyngor
K. Broom	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Aelod o'r Awdurdod Tân
K. Broom	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Ei merch yn gweithio ym maes Gofal Cymdeithasol
J. Hart	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Ei chwaer yn athrawes
B. Jones	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Ei mab yn bennaeth ysgol
P. Warlow	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Ei wraig yn gweithio ym maes Gofal Cymdeithasol
A. Evans	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Ei fam yn gweithio yn Adran y Prif Weithredwr
F. Walters	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Aelodau o'r teulu'n athrawon

A. Leyshon	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Ei ferch yn gweithio yn y gwasanaeth llyfrgelloedd
D. Nicholas	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Ei ferch yn gweithio yn yr Adran Gynllunio
C.A. Jones	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Ei merch-yng-nghyfraith yn gweithio ym maes Addysg
E. Williams	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Cadeirydd yr Awdurdod Tân
D. Cundy	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Ei berthnasau'n gweithio i'r Cyngor
E. Skinner	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Ei nith yn gweithio i'r Awdurdod
R. Sparks	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Mae ganddo fusnes yn y diwydiant hamdden a chaniatawyd gollyngiad iddo siarad ond nid pleidleisio
L. Roberts	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Aelodau o'r teulu yn gweithio i'r Cyngor
G.B. Thomas	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Aelod o'r Awdurdod Tân
M. Palfreman	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Mae ganddo fusnes ymgynghoriaeth gofal cymdeithasol – Caniatawyd gollyngiad iddo siarad ond nid pleidleisio
B. Davies	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Ei wraig yn gweithio ym maes Gofal Cymdeithasol
G. John	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Aelodau o'r teulu'n gweithio i'r Awdurdod
T.A.J. Davies	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Ei chwaer-yng-nghyfraith yn gweithio i'r Cyngor
Andrew Davies	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Ei wraig yn athrawes
J. James	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Ei fab-yng-nghyfraith yn gweithio i'r Awdurdod
R. James	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Ei bartner yn gweithio i'r Awdurdod
P.M. Hughes	5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26	Aelod o'r teulu'n gweithio i'r Cyngor
M. Charles	7.1 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Rob James, Deryk Cundy, Andrew Davies ac Arwel Davies	Yn dirfeddiannwr ac wedi mynegi barn am y mater yn flaenorol. Caniatawyd gollyngiad iddo siarad ond nid pleidleisio
C.A. Davies	7.1 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Rob James, Deryk Cundy, Andrew Davies ac Arwel Davies	Caniatawyd gollyngiad iddi siarad ond nid pleidleisio

H. Jones	7.1 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Rob James, Deryk Cundy, Andrew Davies ac Arwel Davies	Caniatawyd gollyngiad iddo siarad ond nid pleidleisio
W.T. Evans	7.1 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Rob James, Deryk Cundy, Andrew Davies ac Arwel Davies	
M. Charles	7.2 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Gareth Thomas, Ann Davies, Rob James a Crish Davies	Yn dirfeddiannwr – caniatwyd gollyngiad iddo siarad a phleidleisio
C.A. Davies	7.2 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Gareth Thomas, Ann Davies, Rob James a Crish Davies	Caniatawyd gollyngiad iddi siarad a phleidleisio
A Davies	7.2 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Gareth Thomas, Ann Davies, Rob James a Crish Davies	Caniatawyd gollyngiad iddo siarad a phleidleisio
B. Davies	7.2 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Gareth Thomas, Ann Davies, Rob James a Crish Davies	Caniatawyd gollyngiad iddo siarad a phleidleisio
T.A.J. Davies	7.2 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Gareth Thomas, Ann Davies, Rob James a Crish Davies	Yn cadw gwartheg ar y fferm. Caniatwyd gollyngiad iddo siarad a phleidleisio
H.A.L Evans	7.2 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Gareth Thomas, Ann Davies, Rob James a Crish Davies	Caniatawyd gollyngiad iddi siarad a phleidleisio
L.D. Evans	7.2 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Gareth Thomas, Ann Davies, Rob James a Crish Davies	Aelod agos o'r teulu yn ffermio. Caniatwyd gollyngiad iddi siarad a phleidleisio
W.T. Evans	7.2 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Gareth Thomas, Ann Davies, Rob James a Crish Davies	Caniatawyd gollyngiad iddo siarad a phleidleisio



J.K. Howell	7.2 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Gareth Thomas, Ann Davies, Rob James a Crish Davies	Yn ffermwr. Caniatawyd gollyngiad iddo siarad a phleidleisio
H. Jones	7.2 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Gareth Thomas, Ann Davies, Rob James a Crish Davies	Caniatawyd gollyngiad iddo siarad a phleidleisio
J. Lewis	7.2 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Gareth Thomas, Ann Davies, Rob James a Crish Davies	Yn cadw gwartheg ar y fferm. Caniatawyd gollyngiad iddi siarad a phleidleisio
G.B. Thomas	7.2 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Gareth Thomas, Ann Davies, Rob James a Crish Davies	Caniatawyd gollyngiad iddo siarad a phleidleisio
S.M. Allen	7.2 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Gareth Thomas, Ann Davies, Rob James a Crish Davies	Ei gŵr yn filfeddyg ac yn ymwneud â dileu a thrin TB

### 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.

- Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn bresennol mewn ymweliad diweddar gan Dywysog a Thywysoges Cymru â Gorsaf Ambiwylans Awyr Cymru yn Nafen, Llanelli,
- Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i Magda Smith, Marianna Pilichowska, Tom Vaughan-Jones, Jacob Eatly ac Iestyn Davies, aelodau'r Cyngor leuenctid a oedd yn gweithio tuag at eu Gwobr Cysgodi Cynghorwyr a oedd yn cydnabod dealltwriaeth pobl ifanc o ddemocratiaeth leol a'u rhan ynddi,
- Estynnodd y Cynghorydd Gareth Thomas ei longyfarchiadau i Ysgol Gynradd yr Hendy ar ennill cystadleuaeth Carol yr Ŵyl 2022 ar raglen Heno.

### 4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 25 IONAWR 2023

**PENDERFYNWYD** llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2023 yn gofnod cywir.

### 5. YSTYRIED ARGYMHELLION Y CABINET O RAN A MATERION CYNLYNOL:-

## 5.1. STRATEGAETH CYLLIDEB REFENIW 2023/24 I 2025/26

(NODER: Roedd y Cynghorwyr A Vaughan Owen, L.M. Davies, N. Evans, R. Evans, L.D. Evans, H. Shepardson, G. Morgan, T. Higgins, D.C. Evans, K. Broom, J. Hart, B. Jones, P. Warlow, A. Evans, F. Walters, A. Leyshon, D. Nicholas, C.A. Jones, E. Williams, D. Cundy, E. Skinner, R. Sparks, L. Roberts, G. Thomas, M. Palfreman, B. Davies, G. John, T.A.J. Davies, Andrew Davies, J. James, R. James a P.M. Hughes, wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, ac arhosodd y cynghorwyr hynny yn y cyfarfod gan gymryd rhan yn y drafodaeth ynghylch y mater hwn a'r bleidlais ddilynol)

Rhodddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 20 Chwefror, 2023 (gweler Cofnod 5), wedi ystyried Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 - 2025/26 a'i fod wedi gwneud nifer o argymhellion yn ei chylch, fel y manylwyd arnynt yn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, i'w hystyried gan y Cyngor.

Cafodd y Cyngor gyflwyniad gan yr Aelod Cabinet dros Adnoddau, ar ran y Cabinet, pryd y bu'n manylu ar gefndir y cynigion ar gyfer y gyllideb oedd yn cael eu cyflwyno at ystyriaeth y Cyngor, ynghyd â'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch y gyllideb.

Esboniwyd bod proses gyllideb Llywodraeth Cymru yn llawer hwyrach na'r arfer, a bod yr adroddiad oedd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor y diwrnod hwnnw wedi ei baratoi cyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ffigurau'r setliad terfynol ar 28 Chwefror. Serch hynny, bu'n bosibl adolygu rhai o brif elfennau rhagdybiaethau a dyraniadau cyllideb y Cyngor. Roedd hynny wedi golygu bod modd ailedrych ar rai o'r cynigion gwreiddiol yn yr amlinelliad o'r gyllideb ac ystyried opsiynau pellach a'u cyflwyno fel rhan o'r adroddiad i'r Cyngor. Ar sail Cymru gyfan, er bod ffigurau'r setliad amodol yn adlewyrchu cynnydd o 7.9% yn y cyllid, a bod Sir Gaerfyrddin wedi cael codiad o 8.5%, roedd ffigur y setliad terfynol hefyd wedi rhoi £10.7k yn ychwanegol i Sir Gaerfyrddin a fyddai'n cael ei ychwanegu at ei chyllideb wrth gefn.

Oherwydd bod y setliad terfynol wedi'i gyhoeddi'n hwyr, dywedwyd wrth y Cyngor bod yr adroddiad yn rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, ar y cyd â'r Arweinydd, y Prif Weithredwr a'r Aelod Cabinet dros Adnoddau, wneud unrhyw addasiadau yn ôl yr angen, ar ôl derbyn y setliad terfynol. Er bod y Cyngor wedi cael gwybod am y newidiadau hynny y diwrnod hwnnw, byddai angen i'r Cyfarwyddwr ddilyn yr addasiadau hynny drwodd o hyd yn y tablau cyllideb yn dilyn ei gyfarfod. Roedd y Cyfarwyddwr hefyd wedi addasu rhai o'r ffigurau eraill yn y strategaeth fel sy'n arferol wrth i fwy o wybodaeth a gwybodaeth gliriach fod ar gael, ac mae'r dilysiad cyfan presennol wedi ychwanegu mwy na £30m at y gyllideb.

Dywedodd yr Aelod Cabinet er i'r adroddiad gadw'r cyflog tybiedig o 5% am 2023/24 ar gyfer y Cyd-gyngor Cenedlaethol, yn ogystal â staff addysgu, bod y cyflogwyr cenedlaethol mewn perthynas â staff y Cyd-gyngor Cenedlaethol, yn dilyn cyfarfod y Cabinet ar 20 Chwefror, wedi gwneud cynnig ariannol i'r Undebau Llafur oedd yn debyg i'r un a wnaed yn 2022/23. Amcangyfrifwyd bod y cynnig hwnnw yn adlewyrchu cynnydd o 6.7% gan arwain at ddiffyg o 1.7% oedd

yn cyfateb i tua £3m ar gyllidebau net. Dim ond yn ddiweddar yr oedd y cynnig hwnnw wedi'i wneud ac felly nid oedd Llywodraeth Cymru wedi gallu ystyried sut y gallai gael ei gefnogi o ystyried y ffaith ei fod unwaith eto yn uwch na bron pob un o ragdybiaethau Awdurdodau Lleol. O ganlyniad, barnwyd ei bod yn ddoeth i'r Aelod Cabinet dros Adnoddau, ynghyd â'r Cyfarwyddwr, ystyried sut i ddarparu ar gyfer y pwysau cyllidebol ychwanegol, yn enwedig gan nad oedd cyllid Llywodraeth Cymru yn glir a bod y Cyfarwyddwr wedi nodi y byddai angen i'r Cyngor ddefnyddio cyfuniad o'r mesurau canlynol i ariannu'r diffyg, petai'n cael ei dderbyn:

- Dyrannu £1m o'r gyllideb wrth gefn,
- Defnyddio'r addasiad o ran ailbriso Ardrethi Annomestig Cenedlaethol, yr amcangyfrifir ei fod oddeutu £500k a,
- Dyrannu £1.5m o falansau cyffredinol, os nad oedd modd adfer y cyllid o danwariant yn ystod y flwyddyn,

Er nad oedd y cynnig uchod yn cael ei ystyried yn senario delfrydol, ystyrid ei fod yn ddull ymarferol a darbodus ar hyd o bryd yn y broses gyllideb. Hefyd, bu'n rhaid i'r Awdurdod gydnabod y risg bosibl y byddai trafodaethau'n mynd ymhellach yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

O ran dyfarniadau cyflog athrawon, roedd cynnig o 1.5% cyfunedig a 1.5% anghyfunol wedi cael ei gyflwyno gan Weinidog Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r setliad cyflog a oedd yn berthnasol o fis Medi diwethaf. Gan fod yr Awdurdod wedi cynnwys cynnydd o 5% yn ei strategaeth gyllideb, roedd diffyg posibl o tua £1.9m. Er bod disgwyl y byddai Llywodraeth Cymru yn ariannu rhan sylweddol o'r cynnig ychwanegol, nid oedd dim wedi'i gadarnhau'n ffurfiol ar hyn o bryd a byddai angen monitro'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn, wrth i'r trafodaethau gael eu cwblhau.

Dywedwyd wrth y Cyngor yr ymgynghorwyd yn eang ynghylch cynigion y gyllideb am bron i chwe wythnos, a bod tua 2,000 o ymatebion wedi dod i law. Cynhaliwyd cyfarfodydd gydag Arweinydd yr Wrthblaid a'u Llefarydd dros Adnoddau. Hefyd, roedd 80 o bobl ifanc o ysgolion uwchradd y Cyngor wedi cyfarfod ag aelodau cabinet a swyddogion i fynegi eu barn am flaenoriaethau'r gyllideb. Roedd yn amlwg bod pawb a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad yn gwerthfawrogi bod yn rhaid gwneud dewisiadau anodd.

Fel y nodwyd uchod, dywedwyd wrth y Cyngor fod newidiadau i rai o'r rhagdybiaethau allweddol megis cyfrifiadau cyflog ac incwm, prisiau ynni wedi'u diweddarau yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf, a rhyddhau taliadau cyfalaf, wedi golygu bod modd gwneud rhai newidiadau i gynigion y gyllideb derfynol, fel y nodir ym mharagraff 3.2.5 yr adroddiad, a bod cyfanswm o bron i £1.8m ar gael yn sgil hynny i wneud newidiadau i gyllideb y flwyddyn nesaf. Yn unol â hynny, roedd y Cabinet wedi argymhell, er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r swm hwnnw, bod yr addasiadau canlynol yn cael eu gwneud i Strategaeth y Gyllideb, a oedd yn ystyried y broses ymgynghori ac yn ymateb i'r adborth a gafwyd gan y cyhoedd a chynghorwyr:

Yn gyntaf:

Bod £1.3 miliwn yn cael ei ddarparu i ddileu neu leihau'r 9 gostyngiad penodol yn y gyllideb ym mharagraff 3.2.5, gan gynnwys:

- cadw Canolfan Hamdden Sanclêr ar agor wrth i ni weithio gyda'r gymuned i greu llwybr ariannol hyfyw ar ei chyfer,

- rhoi 1/4 miliwn o bunnoedd yn ôl i'r gwasanaethau plant ac ieuenctid er mwyn buddsoddi yn yr agenda atal,

- lleihau'r effaith ar y gwasanaeth cerdd i ysgolion a'r gwasanaethau anableded dysgu.

- lleihau'r gofynion ariannol ar ysgolion £700,000, a hefyd gohirio am flwyddyn unrhyw newidiadau i'r polisi plant sy'n codi'n 4 oed, er mwyn sicrhau ymgynghoriad ehangach a chaniatáu amser priodol i gynllunio unrhyw newidiadau posibl.

#### Yn ail:

• Gohirio codi tâl yn y 9 maes parcio sy'n rhad ac am ddim ar hyn o bryd, er mwyn rhoi amser i'r Awdurdod asesu ac ystyried yr effaith ehangach ar yr ardaloedd unigol. Gwerth gohirio hyn ym mlwyddyn 1 oedd £10k a

• Tynnu'n ôl y gostyngiad o £22k yng nghyllideb yr Iaith Gymraeg o dan yr Adain Polisi Corfforaethol, a oedd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi prosiectau a gwaith ac ymchwil sy'n gysylltiedig â chomisiynu.

#### Yn drydydd,

bod £385 yn cael ei ddefnyddio i gefnogi busnesau a theuluoedd oedd yn gweithio'n galed drwy gyfyngu ar y cynnydd mewn taliadau meysydd parcio a phrydau ysgol i 5%, sef hanner y gyfradd chwyddiant ar hyn o bryd.

#### Yn bedwerydd,

Wrth ymateb i bryderon ynghylch priffyrdd a chanol trefi, bod £262k yn cael ei bennu'n uniongyrchol ar gyfer y blaenoriaethau hyn. Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi gweld crebachiad sylweddol yn ei chyllidebau cyfalaf, ac o ganlyniad roedd rhywfaint o'r gefnogaeth a ddarperid yn y gorffennol i waith llecynnau cyhoeddus wedi diflannu yn y blynyddoedd diwethaf – bydd y dyraniad cyllid hwn o leiaf yn lliniaru hynny'n rhannol.

Yn olaf, ac yn bwysicach fyth, roedd hynny'n gadael digon o arian i ostwng y cynnydd yn y dreth gyngor i 6.8% ar gyfer y flwyddyn nesaf, a chredwyd bod hynny'n taro'r cydbwysedd cywir o ran diogelu gwasanaethau hanfodol y mae ein pobl yn dibynnu arnynt ac yn disgwyl i'r Cyngor eu darparu o ddydd i ddydd.

Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai mabwysiadu'r cynigion yn galluogi'r Cabinet i gyflwyno cyllideb deg a chytbwys ar gyfer y flwyddyn nesaf, a oedd yn ymateb i'r sylwadau oedd wedi deillio o'r ymgynghoriad. Pe bai'r holl gynigion sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad a'u crynhoi i'r Cyngor Sir yn cael eu rhoi ar waith, cadarnhaodd y byddai Strategaeth Gyllideb gynaliadwy a hyfyw yn cael ei darparu a fyddai'n gwneud y canlynol:

- Ymateb i'r ymgynghoriad,
- Sicrhau hyd y gellid fod lefel a safonau'r gwasanaethau'n cael eu cynnal,
- Cydnabod bod trigolion yn ei chael hi'n anodd yn yr hinsawdd bresennol a sicrhau bod gwasanaethau craidd yn cael eu diogelu,
- Paratoi'r Awdurdod, i'r graddau mwyaf posibl, am yr ansicrwydd sylweddol yn y dyfodol.

Fodd bynnag, dywedodd hefyd, yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, fod y dyfarniad cyflog diweddar yn risg ariannol sylweddol i'r gyllideb yn y dyfodol, ac er bod y gost ychwanegol honno wedi cael ei rheoli yn y flwyddyn bresennol, roedd lefel y gost ychwanegol a'r ansicrwydd yn peri risg sylweddol i gynaliadwyedd gwasanaethau yn y tymor canolig yn y blynyddoedd 2025/26 ymlaen, yn dibynnu ar setliadau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol a fyddai'n golygu bod angen monitro'r sefyllfa'n ofalus yn ystod y blynyddoedd nesaf.

I gloi, cynigiodd yr Aelod Cabinet, ar ran y Cabinet, argymhellion Strategaeth Gyllideb 2023/24 - 2025/26 fel y nodwyd yn yr adroddiad, gan bennu Treth Gyngor Band D ar gyfer 2023/24 o £1,490.97, sef cynnydd o 6.8 %.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu a chymeradwyo'r argymhellion canlynol gan y Cabinet:**

**“y Strategaeth Gyllideb ar gyfer 2023/24, sy'n cynnwys y newidiadau ym mharagraff 4.1.4;**

**Bod Treth Gyngor Band D yn 2023/24 i'w gosod ar £1,490.97 (cynnydd o 6.80%);**

**Dileu cynigion arbedion penodol fel y nodir ym mharagraff 3.2.5 o'r adroddiad gan wneud y newidiadau canlynol:**

- i) **Gohirio cyflwyno taliadau newydd mewn 9 maes parcio sy'n rhad ac am ddim tan 2024/25 er mwyn i'r awdurdod asesu ac ystyried yr effaith ehangach ar yr ardaloedd unigol fesul achos. Gwerth gohirio hyn ym mlwyddyn 1 yw £10k,**
- ii) **Dileu'r arbedion o £22k ar gyfer yr Iaith Gymraeg o'r Gyllideb Polisi Corfforaethol**

**cyfyngu ar godi'r incwm a geir yn sgil prydau ysgol a meysydd parcio fel y nodir ym mharagraff 3.2.5;**

**Diwygio'r cyllid a ddyrennir ar gyfer priffyrdd a chanol trefi, fel y nodir ym mharagraff 3.2.5, i £262k i ddarparu ar gyfer y ddau newid a gynigiwyd gan y Cabinet**

**y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a fydd yn sylfaen i gynllunio ariannol ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod;**

**Bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr, yr Arweinydd a'r Aelod**

**Cabinet dros Adnoddau, yn cael awdurdod dirprwyedig i wneud unrhyw newidiadau sy'n angenrheidiol o ganlyniad i setliad terfynol Llywodraeth Cymru a oedd i'w gyhoeddi ar 1 Mawrth 2023”.**

## **5.2. RHAGLEN GYFALAF PUM MLYNEDD 2023/24 - 2027/28.**

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 20 Chwefror 2023 (gweler Cofnod 6) wedi ystyried Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd (Cronfa'r Cyngor) 2023/24 hyd at 2027/28 gan gymryd i ystyriaeth yr ymgynghoriad a gynhaliwyd a'r goblygiadau refeniw oedd yn deillio o'r rhaglen gyfalaf.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau i'r Cyngor, ar ran y Cabinet, yr adroddiad ar y Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd a fyddai'n buddsoddi £265m dros y pum mlynedd nesaf; £73m ohono ar gyfer yr ymrwymiad parhaus i wella ein hadeiladau ysgolion, £27m ar gyfer prosiectau Adfywio i hybu gweithgarwch economaidd, £86m i brosiectau a gefnogir gan y Fargen Ddinesig (sy'n cynnwys canolfan hamdden newydd ar gyfer Llanelli), a £59m i wella'r seilwaith economaidd lleol a'r amgylchedd ehangach.

Roedd y rhaglen yn darparu pecyn cynhwysfawr ac eang a gefnogir gan gyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, ac adnoddau'r Cyngor ei hun.

Nodwyd bod y rhaglen gyfalaf fanwl dros dro wedi cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu - Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar 30 Ionawr at ddibenion ymgynghori. Yn dilyn codi pryderon am ddiffyg darpariaeth ar gyfer atal llifogydd a diffyg arian grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer mesurau datgarboneiddio, roedd y rhaglen wedi'i diwygio i gynnwys ymrwymadau pellach yn y meysydd hynny. Ni chodwyd unrhyw bryderon eraill yn ystod yr ymgynghoriad hwn ac roedd rhan o gofnod perthnasol y cyfarfod wedi'i chynnwys yn Atodiad B er gwybodaeth.

Dywedwyd, gan fod y rhaglen gyfalaf flaenorol yn canolbwyntio cymorth i fusnesau ar yr angen i roi hwb i'r economi leol, bod hynny'n parhau i fod yn ffocws wrth i'r Cyngor barhau i gynnal cymorth i'r economi leol gyda buddsoddiadau mawr mewn prosiectau ffyniant bro a chymorth parhaus i fuddsoddi mewn seilwaith.

Roedd y rhaglen yn cynnwys tri phrosiect trawsnewidiol parhaus, yr oedd pob un yn canolbwyntio ar brif dref wahanol.

Yn gyntaf - roedd y cytundeb i ddechrau adeiladu Parth Un datblygiad Pentre Awel yn Llanelli wedi cael ei lofnodi, am bris contract o £86m gan greu pum adeilad pwrpasol sy'n gysylltiedig â "stryd", a fyddai hefyd yn cynnwys canolfan gweithgareddau dŵr, neuadd chwaraeon, ystafelloedd chwaraeon a ffitrwydd amlbwrpas a champfa, cyfleusterau addysg a hyfforddiant, darpariaeth glinigol ac ymchwil, lle arloesi a lle i fusnesau. Byddai'r prosiect yn trawsnewid tirwedd ac economi de Llanelli, Sir Gaerfyrddin, a rhan fwy o orllewin Cymru.

Yn ail, byddai hwb gwerth £19.6m yn cael ei ddarparu yng nghanol tref Caerfyrddin gan gynyddu nifer yr ymwelwyr â chanol y dref wrth i'r Cyngor adfer yn dilyn y pandemig, gan ddarparu cartref i gasgliad celf y Sir, cyfleusterau iechyd ac addysg, yn ogystal â bod yn gartref newydd i Hwb Caerfyrddin yr

awdurdod ac unedau manwerthu. Byddai'r buddsoddiad hefyd yn gatalydd ar gyfer y gwaith ehangach i adfywio canol y dref.

Yn drydydd, byddai buddsoddiad gwerth £19m i gwblhau Llwybr Dyffryn Tywi yn ardal Dinefwr yn creu manteision sylweddol i'r economi wledig ac yn gwella iechyd a llesiant trigolion.

Dywedodd yr Aelod Cabinet, yn ogystal â'r prosiectau blaengar mawr hyn, y byddai'r Cyngor yn parhau i gefnogi ei raglenni buddsoddi parhaus mewn seilwaith a'r portffolio eiddo ym mlwyddyn pump y rhaglen:

Byddai'r rhaglen yn parhau i gefnogi Ysgolion a Chymunedau Dysgu Cynaliadwy a oedd, yn y blynyddoedd diwethaf, wedi arwain at gwblhau adeiladau ysgolion newydd ac adnewyddu ysgolion ledled y sir. Yn fwyaf diweddar, roedd hyn yn cynnwys agor Ysgol Gynradd newydd Gorslas ac Ysgol Gynradd newydd Pum Heol ac roedd Ysgol Pen-bre yn cael ei hadeiladu ar hyn o bryd. Felly gwnaed darpariaeth yn y rhaglen ar gyfer datblygiadau dichonoldeb pellach, wrth i'r awdurdod barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i lunio cynlluniau i gymunedau eraill ledled y sir elwa o'r buddsoddiad hwn mewn ysgolion a chyflwyno profiad addysg yr 21<sup>ain</sup> Ganrif ar gyfer ein plant a chenedlaethau'r dyfodol yn yr 21<sup>ain</sup> Ganrif.

Nodwyd bod gwaith dichonoldeb o'r fath wedi bod yn mynd rhagddo ym mlwyddyn ariannol 2022/23 ar sawl ysgol, ac felly nid oedd y prosiectau hynny wedi'u rhestru fel rhan o'r rhaglen newydd. Byddai ffrwyth y gwaith hwnnw'n cael ei weld yn y dyfodol wrth i'r prosiectau sicrhau cyllid grant gan y llywodraeth a chael cymorth yn y blynyddoedd nesaf. Nodwyd hefyd nad oedd yr ysgolion cynradd yn Rhydaman, a oedd yn rhan o'r rhaglen, wedi'u rhestru gan eu bod yn rhan o geisiadau Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM), ac felly byddent yn cael eu darparu ar y cyd â phartneriaid yn y sector preifat a fyddai'n cael eu hariannu trwy referniw maes o law.

Dywedodd yr Aelod Cabinet, yn ogystal â'r prosiectau blaengar a amlinellwyd, y byddai'r Awdurdod yn ceisio parhau i gefnogi ein rhaglenni treigl parhaus o fuddsoddiadau mewn seilwaith a phortffolio eiddo'r awdurdod ym mlwyddyn pump y rhaglen, hynny yw:

£2.5m ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.  
£250k i wella Diogelwch Ffyrdd.  
£250k ar gyfer draenio priffyrdd  
£400k ar gyfer cryfhau pontydd  
£600k ar gyfer Adnewyddu Priffyrdd yn barhaus  
£400k ar gyfer Goleuadau Cyhoeddus  
£500k ar gyfer Gwaith Cyffredinol Addysg gan gynnwys addasiadau i gydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb  
£2m ar gyfer y Gronfa Prosiect Adfywio Strategol.  
£3m ar gyfer Cynnal a Chadw Cyfalaf ar gyfer buddsoddi yn ein hystâd eiddo.

Gyda'i gilydd, dros y pum mlynedd nesaf, byddai mwy na £48m yn cael ei fuddsoddi yn y rhaglenni treigl hyn.

Nodwyd hefyd fod bwriad i barhau â'r dyraniad blynyddol o £66k i Hawliau Tramwy a Chilffyrdd yn 2026/27, a hynny i gydnabod rhwymedigaethau'r Cyngor yn y maes hwnnw a'r manteision iechyd ac amgylcheddol cymunedol ehangach a ddarperir gan yr adnoddau gwerthfawr hyn.

Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai buddsoddiadau pellach hefyd yn cael eu gwneud ar draws y rhaglen fel a ganlyn:

O ran Addysg - byddai arian ychwanegol ar gael i gwblhau'r cilfannau bysiau yn Ysgol Dyffryn Taf. Byddai cymeradwyaeth yn cael ei cheisio i gynnwys rhagor o gilfannau bysiau mewn ysgolion eraill, sef: Glanymôr, Dyffryn Aman ac i wella rheoli traffig yn Ysgol Bro Myrddin. Pecyn ariannol newydd gwerth £1.7m. Oherwydd bod y prosiectau hyn yn frys byddent i gyd yn cael eu cynnwys ym mlwyddyn gyntaf y rhaglen newydd. Yn ogystal, o ystyried yr angen brys am ddarparu uned Anhwylder Sbectrum Awtistig ar gyfer disgyblion oedran uwchradd yn nwyrain y sir, roedd cynnig am uned o'r fath yn ardal Llanelli/Porth Tywyn hefyd wedi'i gynnwys yn y flwyddyn gyntaf - 2023/24, gwerth £2m.

O ran Cymunedau - yn ogystal â'r cyllid parhaus ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, y soniwyd amdano eisoes, o fewn y portffolio hamdden byddai cae 4G yn cael ei ddarparu yng Nghanolfan Hamdden Dyffryn Aman. Byddai gwaith hefyd yn dechrau ar ailddatblygu Oriol Myrddin gan gyd-fynd â'r prosiectau diwylliannol eraill a gwblhawyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, megis Archif newydd Sir Gaerfyrddin – Y Stordy, a gwaith ailddatblygu Amgueddfa'r Sir yn Abergwili a Pharc Howard.

O ran yr Amgylchedd - byddai £75k yn cael ei ddarparu yn 2023/24 i roi arian cyfatebol ar gyfer gwaith rheoli llifogydd a £1m ar gyfer gwaith lliniaru llifogydd. Byddai £4.7m yn cael ei ddarparu ar gyfer cerbydau sbwriel ac ailgylchu newydd yn lle'r rhai presennol, a oedd yn cael ei gynnwys fel rhan o'r ymrwymiad i gyflwyno casgliadau didoli ac ailgylchu o dŷ i dŷ.

Wrth i'r awdurdod geisio symud i economi carbon isel byddai ei briffyrdd yn parhau i chwarae rhan bwysig, felly, i gydnabod eu pwysigrwydd i'r economi leol, ac i liniaru diffyg cymorth gan Lywodraeth Cymru yn benodol ar gyfer buddsoddi mewn priffyrdd, roedd swm o £1m o gyllid newydd yn cael ei gynnwys yn y rhaglen a ariannwyd drwy fenthyca ar gyfer gwelliannau i briffyrdd. Roedd hynny'n ychwanegol at y rhaglen dreigl flynyddol barhaus gwerth £600k ac yn cyd-fynd â'r buddsoddiadau sylweddol mewn gwelliannau i briffyrdd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

O ran Datgarboneiddio, yn ystod y flwyddyn flaenorol roedd y Cyngor wedi cyflwyno £500k i ddatgarboneiddio ei ystâd adeiledig a byddai'n parhau â'r buddsoddiad hwnnw gyda £500K arall yn 2023/24. Roedd hynny'n ychwanegol at y grantiau a oedd ar gael i fusnesau lleol gyflwyno mesurau ynni adnewyddadwy a oedd yn cael eu rhoi yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan ddangos ymrwymiad Sir Gaerfyrddin i'r agenda newid hinsawdd a datgarboneiddio.

Roedd Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) yn hanfodol i ffyrdd o weithio yn y dyfodol; felly, roedd y rhaglen yn cynnwys £2.4m yn y maes hwn. Mae'n cynnwys cyllid blynyddol o £200k i gefnogi prosiectau trawsnewidiol digidol ar draws gwasanaethau'r cyngor. Byddai'r Sir hefyd yn gweld budd Prosiect Digidol Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn ystod y blynyddoedd nesaf.



Yn gyffredinol, roedd y rhaglen gyfalaf arfaethedig yn ymrwmo'r Cyngor i fuddsoddiad sylweddol dros y pum mlynedd drwy fanteisio ar gyfleoedd cyllido a chael yr arian mwyaf posibl o ffynonellau allanol posibl. Byddai cyfuniad o gynlluniau newydd a phresennol, yn unol â'r weledigaeth gorfforaethol, yn datblygu'r economi leol, yn creu swyddi ac yn gwella ansawdd bywyd ein trigolion ac ymwelwyr â'r sir, gan ddiogelu adnoddau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Nodwyd mai oddeutu £168m o arian y Cyngor Sir oedd ar gael ar gyfer y rhaglen ar hyn o bryd, a'i fod yn cynnwys benthyca, wedi'i gynnal a heb ei gynnal, cronfeydd wrth gefn a chyllid refeniw uniongyrchol, a Derbyniadau Cyfalaf yn sgil gwerthu asedau nad oedd eu hangen mwyach a byddai grantiau cyfalaf a chyfraniadau o £100m yn dod o gyrff arian grant allanol. Fel rhan o setliad eleni, roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu ffigurau dangosol o ran cyllid cyfalaf cyffredinol hyd at 2024/25, fel yr oedd yn cael ei adleisio yn y rhaglen. Roedd y cyllid ar gyfer blynyddoedd tri, pedwar a phump y rhaglen yn seiliedig ar lefel dybiedig o gymorth sy'n cyfateb i'r hyn a dderbyniwyd yn 2024/25 wrth symud ymlaen. Nodwyd bod cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24 £55K yn llai na'r hyn roeddid yn ei ddisgwyl o'r blaen. Roedd lefel gyffredinol yr arian tybiedig ym mlynyddoedd diweddarach y rhaglen yn fwy na'r ymrwymadau presennol. Byddai'r cyllid nas ymrwymwyd hwn yn caniatáu hyblygrwydd i'r awdurdod helpu â phwysau yn y dyfodol a fyddai'n gysylltiedig â chostau cynyddol a heriau eraill.

Fel y nodwyd o ran y Strategaeth Cyllideb Refeniw, roedd y setliad terfynol wedi'i dderbyn ar 28 Chwefror ac roedd swyddogion wedi asesu'r prif ffynonellau cyllid ar gyfer y rhaglen gyfalaf ac wedi cadarnhau nad oeddent wedi newid ers y setliad amodol. Fodd bynnag, byddai angen gwneud gwaith pellach i asesu grantiau cyfalaf uniongyrchol ac unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r rheiny ac, os oes angen, byddai'r argymhelliad terfynol yn yr adroddiad yn mynd i'r afael â hyn.

Dyweddodd yr Aelod Cabinet fod manylion cynhwysfawr y rhaglen arfaethedig wedi'u nodi yn Atodiad A i'r adroddiad a byddai swyddogion yn parhau i fonitro cynlluniau unigol a'r cyllid sydd ar gael. Tra byddai angen rheoli'r ddwy elfen hyn yn agos i sicrhau bod cynlluniau'n cael eu cyflawni'n llawn, cadarnhaodd fod y rhaglen yn cael ei chyllido'n llawn am y pum mlynedd.

Nodwyd bod Atodiad C, a oedd yn ofynnol gan gôd cyllid cyfalaf prudential, yn cynnwys dogfen Strategaeth Gyfalaf y Cyngor, ac yn manylu ar y cyd-destun tymor hir o ran y penderfyniadau ar wariant cyfalaf a buddsoddi, ac yn rhoi ystyriaeth briodol i risg a gwobrwyo, a'r effaith ar gyflawni canlyniadau blaenoriaethol.

Dyweddodd yr Aelod Cabinet fod y Rhaglen Gyfalaf yn ceisio manteisio ar gyfleoedd a'i bod yn gynhwysfawr ac yn uchelgeisiol, gan ganolbwyntio ar ysgogi'r economi a darparu cyfleusterau o ansawdd uchel i'n trigolion.

## **PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Cabinet:**

### **“5.2.1 Cymeradwyo'r cyllid a'r Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd, fel y'u nodwyd yn Atodiad A yr adroddiad, gyda 2023/24 yn**

gyllideb bendant a 2024/25 i 2027/28 yn gyllidebau amhendant/dangosol;

- 5.2.2 **Bod y rhaglen yn cael ei hadolygu, yn ôl yr arfer, oni lwyddir i gael y cyllid disgwylidig gan gyrff allanol neu'r Cyngor Sir;**
- 5.2.3 **Bod y Strategaeth Gyfalaf, fel y manylir arni yn Atodiad C, yn cael ei chymeradwyo;**
- 5.2.4 **Bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr, yr Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Adnoddau, yn cael awdurdod dirprwyedig i wneud unrhyw addasiadau angenrheidiol o ganlyniad i'r setliad terfynol gan Lywodraeth Cymru a oedd i'w gyhoeddi ar 1 Mawrth 2022”.**

### **5.3. POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH 2023-24**

Rhodddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 20 Chwefror, 2023 (gweler Cofnod 7) wedi ystyried Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023/24.

Roedd yr adroddiad wedi'i lunio yn unol â gofynion Côd Ymarfer diwygiedig CIPFA ynghylch Rheoli'r Trysorlys 2017, lle roedd y Cyngor wedi cytuno'n flaenorol i gynnal Polisi Rheoli'r Trysorlys a oedd yn manylu ar bolisïau ac amcanion gweithgareddau'r Awdurdod o ran Rheoli'r Trysorlys. Nodwyd ei bod hefyd yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn flynyddol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol yr oedd yn ymwneud â hi. Yn ogystal, dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2003, roedd yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Cabinet:**

- 5.3.1 **Bod Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2023-24 a'r argymhellion a nodwyd ynddynt yn cael eu cymeradwyo;**
- 5.3.2 **Bod Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys, y Dangosyddion Darbodaeth, y Datganiad ynghylch y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw, y Strategaeth Fuddsoddi, a'r argymhellion yn cael eu cymeradwyo.**

### **5.4. STRATEGAETH GORFFORAETHOL CYNGOR SIR CAERFYRDDIN 2022-27**

Dywedwyd wrth y Cyngor fod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 13 Chwefror 2023 (gweler Cofnod 6) wedi ystyried Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2022-2027, a oedd yn cynnwys amcanion llesiant y Cyngor ac yn nodi trywydd a blaenoriaethau'r sefydliad yn ystod cyfnod y weinyddiaeth bresennol, gan hefyd ddarparu'r fframwaith cyflawni ar gyfer gweledigaeth ac ymrwymadau'r Cabinet

yn ystod y cyfnod. Byddai'r strategaeth newydd yn canolbwyntio ar nifer llai o amcanion yn seiliedig ar y boblogaeth gan nodi'r blaenoriaethau thematig, blaenoriaethau gwasanaethau a galluogwyr busnes craidd y byddai'r Cyngor yn ceisio eu symud yn eu blaen yn ystod y cyfnod hwnnw.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhelliad canlynol gan y Cabinet:**

**“bod Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2022-2027 yn cael ei chymeradwyo”.**

**6. DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:**

**6.1. 30 IONAWR, 2023**

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 30 Ionawr, 2023.**

**6.2. 13 CHWEFROR 2023**

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2023.**

**7. YSTYRIED Y RHYBUDDION O GYNNIG CANLYNOL:-**

**7.1. RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN CYNGHORWYR ROB JAMES, DERYK CUNDY, ANDREW DAVIES AC ARWEL DAVIES**

[NODER:

Roedd y Cyngorwyr M. Charles, C.A Davies a H Jones wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, a chaniatawyd gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau iddynt siarad ar yr eitem, ac arhosodd y cyngorwyr hynny yn y cyfarfod gan gymryd rhan yn y drafodaeth ond wedyn gadael y cyfarfod yn ystod y bleidlais]

Bu'r Cyngor yn ystyried y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cyngorwyr Rob James, Deryk Cundy, Andrew Davies ac Arwel Davies:-

“Bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn cefnogi pryderon trigolion a busnesau lleol ynglŷn â'r cynnig i godi peilonau i gysylltu Parc Ynni Mithil â'r Grid Cenedlaethol yn Sir Gaerfyrddin; yn credu y dylai Bute Energy weithio gyda thirfeddianwyr i osod y ceblau dan ddaear; a'n bod ni, fel Awdurdod, yn ysgrifennu'n ffurfiol at y cwmni ynni i gefnogi'r pryderon a godwyd.”

Eiliwyd y cynnig.

Rhoddwyd cyfle i gynigwyr ac eilydd y Cynnig siarad o blaid y Cynnig a bu iddynt amlinellu'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Cynnig.

Gwnaed nifer o ddatganiadau yn mynegi cefnogaeth i'r Cynnig.

## **PENDERFYNODD y Cyngor gefnogi'r Cynnig.**

### **7.2. RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN CYNGHORWYR GARETH THOMAS, ANN DAVIES, ROB JAMES AC CRISH DAVIES**

[NODER:

Roedd y Cyngorwyr M. Charles, C.A Davies, A. Davies, B. Davies, T.A.J. Davies, H.A.L. Davies, L.D. Evans, W.T. Evans, J.K. Howell, H. Jones, J. Lewis a G.B. Thomas wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, a chaniatawyd gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau iddynt siarad a phleidleisio ar yr eitem, ac arhosodd y cyngorwyr hynny yn y cyfarfod gan gymryd rhan yn y drafodaeth a'r bleidlais.

Gadawodd y Cynghorydd S.M. Allen, a oedd wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, Siambr y Cyngor ac ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth na'r bleidlais ddilynol].

Bu'r Cyngor yn ystyried y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cyngorwyr Gareth Thomas, Ann Davies, Rob James a Crish Davies:-

“Strategaeth ddileu effeithiol ar gyfer TB buchol

Mae'r cyngor hwn yn gofyn i Lywodraeth Cymru fanteisio ar y cyfle a ddaw yn sgil y strategaeth dileu TB buchol newydd i ganfod ei heffeithiolrwydd o ran lles anifeiliaid (bywyd gwylt a da byw), iechyd y cyhoedd a'r gost.

Mae lefelau heintio cyson uchel, ei effaith ar les anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd ynghyd â'r gost gynyddol i'r pwrs cyhoeddus yn awgrymu nad yw'r mesurau presennol yn addas i'r diben.

Gofynnwn i Lywodraeth Cymru nodi'r pwyntiau canlynol a chymryd camau yn eu cylch: -

- Mae TB buchol yn glefyd trosglwyddadwy y dylid mynd i'r afael ag ef yn gyfannol fel mater lles bywyd gwylt ac anifeiliaid fferm, gan ddefnyddio cyfres gynhwysfawr o fesurau, a arweinir gan y cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael.
- Mae'r gofyniad i brofi gwartheg yn aml yn rhoi straen ar dda byw ac yn peri risg uchel o anaf a hyd yn oed marwolaeth i'r rhai sy'n ymwneud â chynnal profion ar gyfer TB buchol.
- Mae'r methiant parhaus i fynd i'r afael â TB buchol yn peri lefelau sylweddol o broblemau iechyd meddwl ymhlith teuluoedd sy'n ffermio a phobl mewn rolau cysylltiedig.
- Mae angen ymdrin ag achosion o'r clefyd ar ddaliadau mewn modd sensitif drwy gyfathrebu'n effeithiol ac yn symlach.
- Dylai fod gan fwrdd y rhaglen ddileu gynrychiolaeth gytbwys gan gynnwys yr holl randdeiliaid yr effeithir arnynt.”

Eiliwyd y cynnig.

Rhoddwyd cyfle i gynigwyr ac eilydd y Cynnig siarad o blaid y Cynnig a bu iddynt amlinellu'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Cynnig.

Gwnaed nifer o ddatganiadau yn mynegi cefnogaeth i'r Cynnig.

**PENDERFYNWYD cefnogi'r Cynnig.**

**8. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

**9. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan yr Aelodau.

**10. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)**

Dywedodd y Cadeirydd fod y cofnodion a amlinellir ar agenda o dan 10.1 – 10.8 ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor.

\_\_\_\_\_  
**CHAIR**

\_\_\_\_\_  
**DATE**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

## DYDD MERCHER, 8 MAWRTH 2023

**PRESENNOL** Cyngorydd R.E. Evans (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

S.M. Allen	W.R.A. Davies	T.A.J. Davies	B. Davies
G. Davies	L. Davies	L.D. Evans	N. Evans
P.M. Hughes	G.H. John	D. Jones	H. Jones
A. Lenny	D. Nicholas	D. Price	B.A.L. Roberts
E.G. Thomas	M. Thomas	J. Tremlett	A. Vaughan Owen

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

K.V. Broom	J.M. Charles	M.D. Cranham	D.M. Cundy
S.A. Curry	A. Davies	C. Davies	H.L. Davies
K. Davies	L.M. Davies	T. Davies	M. Donoghue
A. Evans	H.A.L. Evans	W.T. Evans	S. Godfrey-Coles
A.D. Harries	J.P. Hart	T.M. Higgins	J.K. Howell
P. Hughes-Griffiths	J.D. James	M. James	R. James
J.P. Jenkins	A.C. Jones	N. Lewis	A. Leyshon
K. Madge	A.G. Morgan	D. Owen	M. Palfreman
B.D.J. Phillips	S.L. Rees	E.M.J.G. Schiavone	H.B. Shepardson
E. Skinner	R. Sparks	D. Thomas	F. Walters
P.T. Warlow	D.E. Williams	J. Williams	

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**

W. Walters, Prif Weithredwr;  
 C. Moore, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol;  
 J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau;  
 G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant;  
 A. Williams, Cyfarwyddwr Lle a Seilwaith;  
 L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;  
 R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol;  
 P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad);  
 G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd;  
 A. Wood, Rheolwr Gwasanaethau Pobl;  
 C. Higginson, Rheolwr Cyfryngau;  
 L. Jenkins, Swyddog Cymorth y Cabinet;  
 S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;  
 M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):**

J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin ac o bell: 10.00 yb - 12.30 yp**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr C. Davies, D.C. Evans, B.W. Jones, G.R. Jones, M.J.A. Lewis, E. Rees, J. Seward a G.B. Thomas.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
L.R. Bowen	5 - Datganiad Polisi Tâl 2023/24;	Mae ei wraig yn gweithio yn Uned Gyfieithu'r Cyngor;
Monitoring the impact of the policy will be reported and updated quarterly. However, the Denominator will not be reported during the first quarter to take into account any new information that's made available through Council Tax.

The success in bringing empty private sector residential properties back into use will be measured using the following Welsh Local Government Association (WLGA) Public Accountability Measures (PAMs) and performance will be compared to other Councils in Wales:

- PAM/013 – Percentage of empty private sector houses brought back into use during the year through direct action by the local authority
- PAM045 – Number of new homes created as a result of bringing empty properties back into use

The work resulting from the Policy will also be measured and reported on in terms of the quantity of engagement and enforcement undertaken; the increase of supply of housing in Carmarthenshire to meet housing demand, as well as the number of council tax premiums applied (when the premium is in place) in order to demonstrate the efforts that are being made to bring empty houses back into use. A suite of sub-measures will be created to reflect the effectiveness of this policy in terms of outcomes and officer activity.



## Appendix 1: Empty Property Risk Assessment Scoring Matrix



**EICH CYNGOR arleinamdani**  
www.sirgar.llyw.cymru  
**YOUR COUNCIL doitonline**  
www.carmarthenshire.gov.wales

### Empty Property Risk Assessment Sheet

Premises Address:

Service Request ID:

Service Request Date:

#### RISK ASSESSMENT DETAILS

Length of Time Vacant	
Less than 2 year	<b>4</b>
2 – 5 Years	<b>8</b>
5 – 10 Years	<b>10</b>
Over 10 Years	<b>20</b>

Area	
Rural	<b>1</b>
Village	<b>5</b>
Ten Towns	<b>20</b>
Key Towns	<b>30</b>

Housing Potential	
One Bed Flat	<b>10</b>
Multiple Flats (above Commercial)	<b>10</b>
2 Bed House	<b>10</b>
3+ Bed House	<b>5</b>

Ownership	
Contactable & responds	<b>0</b>
Contactable, does not respond	<b>5</b>
Uncontactable	<b>10</b>
Owner in Care Home	<b>15</b>

Condition	
Good condition, no defects	<b>0</b>
Minor defects, no safety issues	<b>10</b>
Multiple Cat 2 Hazards	<b>20</b>
Multiple Cat 1 Hazards	<b>30</b>
Dangerous - Loose / Falling elements	<b>40</b>

Property Type	
Detached	<b>1</b>
Semi-Detached	<b>5</b>
Terraced	<b>10</b>
Flat / HMO	<b>15</b>
Local Authority Site	<b>20</b>

Market/Habitability	
Saleable/Good	<b>0</b>
Renovate/Habitable	<b>5</b>
Substantial Disrepair	<b>10</b>

Property Appearance in the Area	
Good Appearance	<b>0</b>
Some Detriment	<b>10</b>
Major Detriment	<b>20</b>
Ruinous / Derelict	<b>30</b>

Social Impact	
No Incidents	<b>0</b>
Minor Incidents	<b>10</b>
Major Impact	<b>20</b>

Security	
Secure	<b>0</b>
Insecure	<b>30</b>

Enforcement	
Advisory	<b>10</b>
Major / No WID	<b>20</b>
Small Scale / WID	<b>30</b>
Major / WID	<b>40</b>
Urgent	<b>50</b>

## Appendix 2: Financial Support for Empty Property Owners

<p><b>Houses into Homes</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• This is a Welsh Government funded scheme, offering interest free loans to owners of empty properties, offering financial assistance to improve such properties for sale or let as residential properties, on completion.</li> <li>• This scheme will consider loans up to £25,000 per self-contained unit, up to a maximum £150,000 (6 units) per applicant.</li> <li>• The loan is subject to a maximum Loan to Value of 80% and has no monthly repayment terms.</li> <li>• This scheme is also available for commercial empty properties, where planning consent is in place for its conversion to residential units.</li> </ul>
<p><b>Leasing Scheme Wales</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• This scheme is aimed at improving access to long term affordable and good quality housing, with tenancy support, in the Private Rented Sector.</li> <li>• Leasing Scheme Wales will support landlords and offer grants of up to £5,000 to bring their properties up to Housing, Health and Safety Rating System Standards</li> <li>• Up to £25,000 in grants is offered to landlords where properties have been empty for 6 months or more, in return for longer term leases of between 5 to 20 years</li> <li>• Leasing Scheme Wales will provide tenants with longer term security of accommodation (of between 5 to 20 years) in the Private Rented Sector at an affordable rent based on Local Housing Allowance levels.</li> <li>• Leasing Scheme Wales will support those who are at risk of homelessness or are homeless according to the definition in the Housing (Wales) Act 2014.</li> </ul>
<p><b>National Empty Homes Grant Scheme</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Owner Occupier grants are administered through One National Body (RCT Council) offering grant assistance to the value of £25,000, to improve empty properties which are occupied by owners, within the County.</li> <li>• Beneficiaries of the grant will need to occupy the property for a minimum of 5 years</li> <li>• Homes must have been empty for a minimum of 12 months</li> <li>• Supported by WG funding, with Carmarthenshire Council providing match funding 10% to the Programme.</li> </ul>
<p><b>Targeted Regeneration Investment Programme</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Targeted Regeneration Investment Programme is a regional plan which looks to support area-based regeneration projects that promote economic regeneration such as creating jobs, enhancing skills and employability and creating the right environment for businesses to grow and thrive; with a focus on</li> </ul>

	<p>individuals and areas most in need to ensure prosperity is spread to all parts of Wales.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Carmarthenshire’s priority areas are; <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Llanelli town centre</li> <li>○ Station Road, Llanelli</li> <li>○ Ammanford town centre</li> </ul> </li> <li>• The programme has two main thematic funding streams, a property enhancement development grant and sustainable living grant.</li> </ul>
<b>Property Enhancement Development Grant</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• The Property Enhancement Grant addresses the requirement for retail and commercial floor space that meets the needs of businesses by providing gap funding for vacant commercial building occupiers and owners to enhance building frontages and bring vacant commercial floor space back into beneficial business use.</li> <li>• In addition, where a local need has been identified, it would fund development projects that create new commercial floor space.</li> </ul>
<b>Sustainable Living Grant</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Will support the conversion of vacant commercial floor space into new homes and can be used alongside the Property Enhancement Development Grant and other initiatives to ensure comprehensive mixed-use regeneration of properties.</li> <li>• The aim of the funding is to convert vacant floor space on upper floors into new residential accommodation. The minimum requirement from each scheme is 1 x 1 bedroom self-contained flat. Student accommodation and bedsits are not eligible for grant funding.</li> <li>• A maximum of £20,000 grant can be considered eligible per residential unit created</li> </ul>

### Appendix 3: Enforcement Options

<p><b>Enforced Sale</b></p>	<p>An Enforced Sale is a process by which the Council can force the sale of a privately owned property or piece of land where a ‘relevant debt’ is owed to the Local Authority. It is a means of transferring ownership to a new owner, in circumstances where the present owner is either unwilling or unable to deal with the site or property, and its associated problems and either refuses or is unable to repay the debt owed.</p> <p>Relevant debts will mainly be accrued where the Council carries out work to the property following the service of a statutory notice, where the recipient failed to carry out the work themselves.</p> <p>The debt is then registered as a local land charge. The enforced sale of a property has the effect of changing the ownership of the land/property, and with encouragement generating interest, investment and reoccupation. Prior to forcing the sale, the Council will take other statutory action below to force improvement or reoccupation through the new owners. Properties will be sold at Public Auction to guarantee the best price for the property, fees and charges will be recovered and any surplus repaid to the owners or treasury if unregistered and owners not known.</p>
<p><b>Empty Dwelling Management Orders (EDMO)</b></p>	<p>Introduced by the Housing Act 2004, Empty Dwelling Management Orders (“EDMOs”) give the Local Authority the power to take management control of privately owned empty homes to secure occupation of them.</p> <p>The power resides in Sections 132 to 138 of the Housing Act 2004. Interim and Final EDMOs are made against the proprietor of the property, who may be either the owner, or a leaseholder where there are at least 7 years remaining on lease. The authority, having exhausted all other avenues of encouraging the proprietor to bring the property back into use, can apply to a Residential Property Tribunal for an order.</p>
<p><b>Compulsory Purchase Orders (CPO)</b></p>	<p>Section 17 of the Housing Act 1985 gives the council the power for the purposes of Part II of that Act to acquire: a. land to build houses; b. houses or buildings which may be made suitable as houses together with any occupied land; c. land proposed to be used for any purpose authorised by legislation (facilities to be provided in connection with housing accommodation); and d. land to carry out works on it for the purpose of or in connection with the alteration, enlarging, repair or improvement of an adjoining house.</p>

<p><b>Section 215 – Detrimental to the Public Amenity</b></p>	<p>If it appears to Planning Services that the amenity of a part of their area, or of an adjoining area, is adversely affected by the condition of the land in their area, they may serve on the owner and occupier of the land a notice under this section requiring steps to be taken under Section 215 of the Town and Country Planning Act 1990. The notice will specify the steps to be taken to remedy the condition of the land. If the owner or occupier does not comply with the terms of the notice within the specified period, the owner or occupier will be guilty of an offence and liable for prosecution in the Magistrates Court (liable to a fine not exceeding level 3 on the standard scale).</p>
<p><b>Housing Act 2004 Statutory Notices</b></p>	<p>Under the Housing Act 2004, the council must take the appropriate enforcement action where it considers that either a Category 1 or 2 Hazard exists on residential premises. Appropriate enforcement action can include the serving of an improvement notice. We will not be serving Prohibition Orders as this will preclude us from bringing the property back into use. We will consider Demolition Orders under the 1985 and 2004 Act as well as suspending the notices. Notices may be split by hazard to enforce and carry out works in default on specific defects/ elements. Any works in default and charges incurred will be considered as a Primary Charge and registered against the property.</p>
<p><b>Building Act 1984</b></p>	<p>If the Council considers a building or structure, or part of it, to be in a dangerous condition or ruinous/ dilapidated that subsequently detrimental to the amenity then, under the Building Act, the Council can apply to the Magistrates Court requesting an order be made requiring the owner to carry out works to remove the danger or to demolish the building. If the owner fails to comply with the order within the specified time period, the Council may execute the order and recover its reasonably incurred expenses of doing so from the owner. The owner will also be liable to prosecution.</p>
<p><b>Environmental Protection Act 1990</b></p>	<p>If the Council is satisfied that a statutory nuisance exists or is likely to occur or recur with an Empty Property, the Council can serve an abatement notice. The notice will require the abatement of the nuisance or prohibit or restrict its occurrence or recurrence. The Council may then execute works and take other steps necessary for any of those purposes.</p>

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**CABINET****13 MAWRTH 2023****PRESENNOL** Cyngorydd D. Price (Cadeirydd)**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

C.A. Davies, L.D. Evans, G. Davies, P.M. Hughes,  
G.H. John, A. Lenny, J. Tremlett, A. Vaughan Owen.

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir)**

Cyngorydd D. M. Cundy.

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**

W. Walters, Prif Weithredwr;  
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau;  
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;  
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant;  
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff;  
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;  
S. Charles, Rheolwr Strategaeth a Seilwaith Trafnidiaeth;  
C. Higginson, Rheolwr y Cyfryngau;  
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;  
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau;  
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**

C. Harrison, Pennaeth Comisiynu Strategol ar y Cyd;  
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau.

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell: 10:00yb - 10:20yb****1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cyngorydd E. Thomas.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Y Cyngorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
A. Davies	Eitem 10 - Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi - Caffael Tir a defnyddio pwerau Gorchymyn Prynu Gorfodol i gefnogi caffael tir a hawliau	Mae'r Cyngorydd Davies yn berchen ar dir sy'n croesi Llwybr Dyffryn Tywi.

### **3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR GOFNODION CYFARFODYDD Y CABINET A GYNHALWYD AR Y:-**

#### **3.1. 13 CHWEFROR 2023**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** Iofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2023 yn gofnod cywir.

#### **3.2. 20 CHWEFROR 2023**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** Iofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2023 yn gofnod cywir.

### **4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU**

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

### **5. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN Y CYHOEDD**

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

### **6. STRATEGAETH EIRIOLAETH OEDOLION RANBARTHOL**

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn cynnwys Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Ranbarthol newydd i'w chymeradwyo gan y Cabinet. Y strategaeth a gafodd ei datblygu gyda rhanddeiliaid drwy gyfrwng y Gweithgor Eiriolaeth oedd yn cynnwys tri Awdurdod Lleol, Bwrdd Iechyd a'r trydydd sector.

Nod y Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Ranbarthol ddrafft yw sicrhau bod eiriolaeth o ansawdd da ar gael yn hwylus ac yn deg i'r rhai sydd ei eisiau, neu ei angen, yn rhanbarth Gorllewin Cymru yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.

Amlinellodd y strategaeth bum maes blaenoriaeth gyda'r nod o wella'r canlyniadau i bobl sydd angen eiriolaeth. Diffiniwyd y blaenoriaethau yn dilyn y gwaith a wnaed ar y cyd hyd yma, ymgysylltu, yr Asesiad Poblogaeth Rhanbarthol, ac mewn ymateb i ofynion deddfwriaethol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** i gymeradwyo'r Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Ranbarthol sy'n ceisio llywio trefniadau comisiynu Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Cyngor Sir Gaerfyrddin, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Penfro er mwyn cyflawni eu dyletswyddau statudol.

### **7. UNRHYW FATER ARALL**

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.



## 8. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

## 9. CYMUNEDAU CYNALIADWY AR GYFER DYSGU SIR GAERFYRDDIN (Y RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG YN FLAENOROL) YSGOL GWENLLIAN, CYDWELI

Yn sgil cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 8 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Roedd prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth a geir ynddo oherwydd byddai datgelu'r wybodaeth hon yn tanseilio'n sylweddol fuddiannau masnachol y Cyngor mewn trafodaethau am eiddo yn y dyfodol.

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn nodi cynnig i brynu tir a throsglwyddo arian yn y rhaglen gyfalaf i fwrw ymlaen ag ysgol cyfrwng Cymraeg newydd i Ysgol Gwenllian, Cydweli.

### **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

- 9.1 **bwrw ymlaen â phrynu tir i gefnogi datblygu ysgol gynradd Gymraeg newydd sbon i Ysgol Gwenllian, Cydweli;**
- 9.2 **Bod trosglwyddiad yn y rhaglen gyfalaf, fel y manylir yn yr adroddiad, yn cael ei gymeradwyo er mwyn caniatáu i'r pryniant gael ei gwblhau cyn gynted â phosib.**

**10. LLWYBR CYD-DDEFNYDDIO DYFFRYN TYWI - CAFFAEL TIR A DEFNYDDIO PWERAU GORCHYMYN PRYNU GORFODOL I GEFNOGI CAFFAEL TIR A HAWLIAU.**

[Sylwer: Roedd y Cynghorydd Ann Davies, ar ôl datgan buddiant yn Eitem hon yn gynharach, wedi gadael y cyfarfod cyn i'r cais gael ei ystyried a chyn y gwnaed penderfyniad yn ei gylch.]

**Yn sgil cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 8 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Roedd prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth a geir ynddo oherwydd byddai datgelu'r wybodaeth hon yn tanseilio safle'r Cyngor mewn unrhyw drafodaethau parhaus ynghylch prynu darnau o dir sy'n weddill a fydd yn cyd-fynd ochr yn ochr â phroses y Gorchymyn Prynu Gorfodol**

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn eisio cymeradwyaeth i barhau â thrafodaethau ynghylch tir a chymeradwyo defnyddio pwerau Prynu Gorfodol i gaffael tir a buddiannau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**10.1 Cymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau bod Gorchymyn Prynu Gorfodol Llwybr Cyd-ddefnyddio Dyffryn Tywi yn cael ei wneud, ei gadarnhau a'i weithredu o dan adran 226(1)(a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a Deddf Caffael Tir 1981 i gaffael y cyfan neu'r rhan o'r tir a ddangosir yn binc ar y Cynlluniau sydd wedi'u hatodi ynghyd â chaffael hawliau hawddfaint dros yr ardaloedd glas y disgrifir pob un ohonynt yn gyffredinol yn Atodiad A at ddiben cyflawni'r llwybr cyd-ddefnyddio.**

**10.2 Ar y cyd â 10.1 uwchben, bod yr adran Eiddo Corfforaethol yn parhau â thrafodaethau i gaffael y tir sydd ei angen ar gyfer y Llwybr Cyd-ddefnyddio trwy gytundeb, os yn bosibl, gan gynnwys, lle bo'n berthnasol, y parseli hynny o dir nad oes ganddynt ar hyn o bryd ganiatâd cynllunio ar gyfer cyflawni'r Cynllun.**

**10.3 Cadarnhau y bydd y llwybr cyd-ddefnyddio, ar ôl ei adeiladu, yn cael ei ddynodi'n 'briffordd a gynhelir gan arian cyhoeddus'.**

**10.4 Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Lle a Seilwaith i wneud y canlynol:**

- I. Setlo ffurf a chynnwys terfynol y Gorchymyn Prynu Gorfodol a'r holl ddogfennaeth gysylltiedig (gan gynnwys y Datganiad Rhesymau) gan gynnwys mân ddiwygiadau i'r cynlluniau a'r atodlenni sy'n dangos y tir.**

- II. Cymryd pob cam sydd ei angen i fynd ar drywydd gwneud y Gorchymyn Prynu Gorfodol a sicrhau ei gadarnhad gan gynnwys cyhoeddi a chyflwyno pob hysbysiad a chyflwyno achos y Cyngor mewn unrhyw ymchwiliad cyhoeddus;
- III. Caffael buddiannau yn y tir o fewn y Gorchymyn Prynu Gorfodol naill ai drwy gytundebau neu'n orfodol; a
- IV. Chymeradwyo cytundebau gyda thirfeddianwyr sy'n nodi'r telerau ar gyfer tynnu gwrthwynebiadau i'r Gorchymyn Prynu Gorfodol yn ôl, gan gynnwys lle bo hynny'n briodol, ceisio eithrio tir neu hawliau newydd o'r Gorchymyn Prynu Gorfodol.
- V. Ar ôl cadarnhau'r Gorchymyn Prynu Gorfodol, gweithredu'r pwerau Gorchymyn Prynu Gorfodol a Phwerau Breinio Cyffredinol i gaffael teitl i'r tir a/neu gymryd meddiant ohono.

---

CADEIRYDD

---

DYDDIAD

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**DYDD LLUN, 27 MAWRTH 2023**

**PRESENNOL** Cyngorydd D. Price (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

C.A. Davies                      L.D. Evans                      G. Davies                      P.M. Hughes  
G.H. John                      E.G. Thomas                      A. Vaughan Owen

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir)**

Cyngorydd D.M. Cundy

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**

W. Walters, Prif Weithredwr  
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau  
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol  
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith  
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant  
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff  
J. Jones, Pennaeth Adfywio  
C. Higginson, Rheolwr Cyfryngau  
A. Eynon, Prif Gyfieithydd  
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democraataidd  
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democraataidd  
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):**

S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.00 - 10.50 yb**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A. Lenny a J. Tremlett.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Y Cyngorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
C. A. Davies	9 - Ardrethi Busnes - Cynllun Rhyddhad Ardrethi ar gyfer Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2023/24	Mae ganddi lety gwyliau.
P.M. Hughes	9 - Ardrethi Busnes - Cynllun Rhyddhad Ardrethi ar gyfer Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2023/24	Mae'n berchen ar Westy Gwely a Brechwast yn y Sir.

L.D. Evans	6 - Adroddiad Monitro ynghylch Cyllideb Refeniw y Cyngor 9 - Ardrethi Busnes - Cynllun Rhyddhad Ardrethi ar gyfer Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2023/24	Mae gan aelod agos o'i theulu fusnes yn y Sir.
A Vaughan Owen	6 - Adroddiad Monitro ynghylch Cyllideb Refeniw y Cyngor	Mae ei wraig yn bennaeth ar ysgol gynradd.
G. Davies	11. Penodi Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol	Ef yw Cadeirydd y llywodraethwyr yn Ysgol Brynaman

### 3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR GOFNODION CYFARFODYDD Y CABINET A GYNHALWYD AR Y 13EG MAWRTH 2023

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** Iofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2023 yn gofnod cywir.

### 4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

### 5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd fod dau gwestiwn â rhybudd wedi dod i law gan y cyhoedd.

#### 5.1. CWESTIWN GAN MR HAVARD HUGHES I'R CYNGHORYDD ANN DAVIES, YR AELOD CABINET DROS FATERION GWLEDIG A PHOLISI CYNLLUNIO

“Pryd fydd y dogfennau adolygu sy'n ymwneud ag ailasesu Polisi Ardaloedd Tirwedd Arbennig EQ6 y cynllun lleol presennol, a fydd yn arwain at lunio Polisi BHE2, yn cael eu cyhoeddi?”

**Dywedodd y Cyngorydd Ann Davies, yr Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig a Pholisi Cynllunio:-**

“Diolch i chi am eich cwestiwn. Mae'r Polisi newydd BHE2 yn y CDLI ar ddechrau ei daith ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth bellach a chanllawiau atodol a fydd yn cael eu cwblhau ac yn barod i fod yn weithredol erbyn i'r CDLI newydd gwblhau ei daith, rwy'n gobeithio erbyn Rhagfyr 2024 ond mae hyn ddibynnol ar yr Arolygiaeth Gynllunio ac amryw faterion eraill.

Fel y gwyddoch, mae'r ymgynghoriad ynghylch yr 2<sup>il</sup> CDLI Adneuo yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Mae dyddiad yr ymgynghoriad hwn yn dod i ben ar 14 Ebrill, a byddwn yn gofyn yn garedig os oes gennych bryderon yna byddwn yn awgrymu eich bod yn eu bwydo i mewn i'r system hon. Fel y gwyddoch, byddwn yn edrych ar bob ymateb ac yn ei ddadansoddi cyn i'r Arolygiaeth Gynllunio ei asesu'n annibynnol. Wrth i ni baratoi'r canllawiau atodol ar dirweddau byddwn hefyd yn ymgynghori â'r Cyhoedd ynghlân â'i gynnwys.

Bydd y canllawiau hyn yn nodi tirweddau ar draws y Sir a'u nodweddion arbennig gan ganiatáu i ni ddeall yr hyn sy'n bwysig amdanynt fel rhan o'u dynodiad yn y dyfodol. Fel y gwyddoch, nid yw'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig presennol yn rhoi unrhyw amddiffyniad pendant i'r 18 ardal a nodwyd yn y CDLI presennol. Dim ond Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol sy'n cynnig yr amddiffyniad hwnnw. Fodd bynnag, bydd polisi BHE2 yn cryfhau'r Polisi ar Dirweddau."

### **Cwestiwn atodol gan Mr Havard Hughes:-**

"Yn y Cynllun Datblygu Lleol cymeradwy dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru eu bod yn holi ynghylch y diffyg cyfeiriadau at ardaloedd tirwedd arbennig yn y datganiad gwreiddiol. Ymateb Sir Gaerfyrddin oedd 'Mae Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn ddynodiad anstatudol ac oherwydd hyn nid yw'n ofynnol ei ddynodi yn y CDLI'. Felly a yw eich barn chi yr un fath â swyddogion y cyngor a'u hymateb nhw nad yw ardaloedd tirwedd arbennig yn ofynnol ac felly a ydynt wedi cael eu dileu o'r cynllun lleol?

### **Ymateb gan y Cynghorydd Ann Davies, yr Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig a Pholisi Cynllunio i'r cwestiwn atodol:-**

Fel y dywedais yn flaenorol, nid yw'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn gosod amddiffyniad pendant; fel y gwyddoch gan fy mod wedi ysgrifennu e-byst atoch i'ch gwneud yn ymwybodol o hyn.

Bydd polisi BHE2 yn cryfhau'r polisi ar dirweddau a hoffwn ddweud mewn gwirionedd drwy ddefnyddio system Landmap Cyfoeth Naturiol Cymru bydd Sir Gaerfyrddin gyfan yn cael ei hamddiffyn o dan y polisi newydd ac rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn nodi hynny. Rydym yn ymwybodol bod deiseb yn y Sir sy'n gofyn i ni adolygu ein barn ar yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig, fodd bynnag, gan mai dyddiad cau'r ymgynghoriad yw 14 Ebrill, rwyf am ofyn yn garedig i'r trefnydd sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei bwydo i mewn i'r ymgynghoriad cyn y dyddiad cau os yn bosibl.

## **5.2. CWESTIWN GAN MS TARA-JANE SUTCLIFFE CYHOEDD I'R CYNGHORYDD ANN DAVIES, YR AELOD CABINET DROS FATERION GWLEDIG A PHOLISI CYNLLUNIO**

"A oes modd iddi gadarnhau pa Ganllawiau Cynllunio Atodol sy'n disodli'r Canllawiau Cynllunio Atodol Ynni Gwynt ac Ynni'r Haul cyfredol (mabwysiadwyd mis Mehefin 2019); a oes modd iddi roi dyddiad mabwysiadu pendant ar gyfer y Canllawiau Cynllunio Atodol newydd."

## **Ymateb gan y Cynghorydd Ann Davies, yr Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig a Pholisi Cynllunio:-**

"Diolch i chi am eich cwestiwn. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol Ynni Gwynt ac Ynni'r Haul presennol wedi cael eu hadolygu a byddant yn parhau i fod yn weithredol am y blynyddoedd nesaf. Felly nid ydym yn bwriadu disodli'r polisi am y blynyddoedd nesaf. Mae'r polisi yn parhau i fod yn berthnasol ac felly bydd yn parhau yn ei fformat presennol yn sicr tan ddiwedd 2025. Dyna pryd rydym yn rhagweld y bydd yn cael ei ddiweddarau ond ar hyn o bryd mae'n gyfredol, yn berthnasol ac yn addas i'w bwrpas.

### **Cwestiwn atodol gan Ms Tara-Jane Sutcliffe:-**

"Mae'n wirioneddol wych clywed yr ymrwymiad i'r Canllawiau Cynllunio Atodol hynny. Fe wnaethoch chi sôn y byddai'n aros yn ei le tan 2025. Ydych chi'n gallu gwneud ymrwymadau mwy hirdymor oherwydd y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn, hyd y gwn i, yw'r unig le mae'r Cyngor wedi codeiddio eich ymrwymiad i osod ceblau dan ddaear ac yn amlwg, o ystyried digwyddiadau cyfredol, mae cryn bryder ynghylch caniatâd i ddatblygwyr allu rhoi eu ceblau uwchben. Ydych chi'n gallu cadw at yr ymrwymiad hwnnw o osod ceblau dan ddaear sydd wedi'i gynnwys yn y polisi hwnnw am gyfnod hirach na 2025.

## **Ymateb gan y Cynghorydd Ann Davies, yr Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig a Pholisi Cynllunio i'r cwestiwn atodol:-**

Gallaf eich sicrhau y bydd y polisi yn cael ei adolygu ac i fod yn onest pan oeddwn yn ysgrifennu hyn roeddwn yn meddwl, mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn gweithio arno gyda phortffolio Aled. Mae Polisi Datgarboneiddio'r Cyngor wedi cael ei adolygu ynghyd â'r polisi Ynni Gwynt ac Ynni'r Haul ac mae cymaint o waith wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf ar y cyd â phortffolio Aled wrth symud Sir Gaerfyrddin ymlaen i fod yn Sir Sero Net erbyn 2030. Dyna ein hymrwymiad ni. Mae'r cynnydd sydd wedi'i wneud o fewn y maes hwn yn anhygoel ac felly byddwn yn rhagweld y byddai'r polisi newydd yn adlewyrchu'r datblygiadau a wnaed yn llawn.

Er i mi ddweud diwedd 2025, a dyna pryd y gwelwn y bydd y polisi newydd yn cael ei lunio, byddwn yn eich cynghori pan fydd adolygiad neu ddiweddariad yn cael ei wneud i'r Canllawiau Cynllunio Atodol, bydd ar agor ar gyfer ymgynghori ac mae rhyddid i bawb anfon eu sylwadau pan fydd y polisi'n cael ei adolygu unwaith eto. Ond dwi ddim yn gweld shifft os dwi'n onest o ran gosod ceblau dan ddaear.

## **6. ADRODDIAD MONITRO YNGHYLCH CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR**

[Sylwer: Roedd y Cynghorwyr L.D. Evans ac A. Vaughan Owen wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, ond arhosodd y ddau yn y cyfarfod.]

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad monitro'r gyllideb refeniw a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2022, o ran 2022/2023.



Yn gyffredinol, roedd yr adroddiad monitro yn rhagweld gorwariant ar gyfer y flwyddyn ar lefel adrannol o £6,259k gyda gorwariant o £270k ar gyllideb referniw net yr Awdurdod. Dywedodd y Cabinet mai'r amrywiant mwyaf oedd y codiadau cyflog oedd heb eu hariannu, a oedd bellach wedi'u cynnwys ar lefel adrannol ac wedi gwella'r sefyllfa o ran gorwariant mewn rhai adrannau. Roedd y ffigyrau wedi'u diweddarau i adlewyrchu effaith y canghellor yn gwrthdroi'r ardoll ar iechyd a gofal cymdeithasol, a roddodd arbediad o 1.25% ar gyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr o fis Tachwedd.

Yn ogystal, erys:

- gorwario mewn meysydd gwasanaeth sy'n cael eu gyrru gan fwy o alw ynghyd â llai o arian grant yn erbyn y blynyddoedd blaenorol, yn enwedig Anableddau Dysgu a Gwasanaeth Plant.
- Gostyngiad parhaus mewn incwm masnachol, gan gynnwys meysydd parcio, canolfannau hamdden a phrydau ysgol.
- Tanwariant mewn cyllid cyfalaf oherwydd oedi mewn cynlluniau a llai o angen i fenthyg. Roedd y tanwariant cynhenid yn £3m, ac yn ei erbyn roedd £750k yn uniongyrchol wedi'i ymrwymo i dalu am y cynnydd mewn prisiau tendro sydd ei angen i fwrw ymlaen â phrosiect Oriol Myrddin, sy'n denu tua £1m o arian cyfatebol y Loteri Genedlaethol.

Dywedwyd bod trafodaethau sylweddol gan Lywodraeth Cymru dros godiadau cyflog Athrawon a'r sefyllfa bresennol o ran codiad cyflog Medi 2022 oedd bod y Gweinidog wedi cynnig cynnydd i ddechrau o 5% i bob pwynt cyflog statudol, a gafodd ei drafod ymhellach gan yr undebau ac yn y pen draw, cytunodd y Gweinidog ar gynnis diwygiedig ar gyfer 2022/23 a oedd yn cynnwys cynnydd pellach cyfunedig o 1.5% a thaliad anghyfunedig o 1.5%, gyda'r elfen anghyfunedig ar gyfer y flwyddyn academaidd hon yn unig. Y ddealltwriaeth oedd y byddai Llywodraeth Cymru yn ariannu'r 3% ychwanegol ar gyfer y flwyddyn academaidd hon ac felly byddai ysgolion yn cael diffyg o 1% yn eu cyllideb o ran Cyflogau Athrawon o fis Medi i fis Mawrth, oherwydd y ffaith mai dim ond 4% oedd wedi'i ddilysu i'r gyllideb ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Roedd y diffyg a'r effaith ar gyllideb ysgolion a'r Gyllideb Gorfforaethol wedi cael ei hystyried ac fe gynigiwyd bod yr Awdurdod yn rhoi'r cyllid ychwanegol o tua £600k i'r ysgolion a fyddai'n sicrhau na fyddai gan ysgolion ddiffyg yng nghyllideb y cyflogau athrawon am eleni.

Cynigiwyd hefyd i roi cyllid ychwanegol i'r ysgolion ar gyfer y diffyg yn y cyllidebau ar gyfer staff nad ydynt yn addysgu a fyddai'n cynyddu cyllidebau ysgolion i £900k arall. Cynigiwyd i gynyddu cyfanswm y cyllidebau ar gyfer ysgolion yn 2022/23 o 1.5m o adnoddau'r Cyngor Sir i ariannu'r diffyg y mae ysgolion yn eu hwynebu oherwydd y codiadau cyflog yn ystod 2022/23.

Nodwyd, er bod incwm masnachol yn parhau i adfer, roedd defnydd y cyhoedd o feysydd parcio, yn ogystal â chanolfannau hamdden yn parhau i fod ymhell islaw'r lefelau cyn y pandemig a bod hyn yn cyfrannu at y darlun gorwariant.

Nodwyd bod yr Awdurdod, fel rhan o broses pennu cyllideb 2022/23, wedi cytuno ar gyllideb wrth gefn gwerth £3m yn ystod y flwyddyn a gedwir yn ganolog ar hyn o bryd ac a oedd yn gwrthbwysu'n rhannol y pwysau presennol. Ar ben hynny,

nodwyd bod £200k wedi'i ddefnyddio i wrthbwysu'r cynnydd mewn prisiau tanwydd sy'n cael effaith ar Gludiant Ysgol.

#### **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

- 6.1 dderbyn adroddiad monitro'r gyllideb, a nodi'r sefyllfa gyllidebol a'r camau unioni priodol a gymerwyd.**
- 6.2 o ran gorwariant sylweddol ar feysydd penodol o'r gyllideb, bydd y Prif Swyddogion a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn adolygu'n feirniadol yr opsiynau sydd ar gael iddynt er mwyn mynd i'r afael â'r effaith barhaus.**
- 6.3 bod yr argymhelliad ychwanegol i roi cynnydd sy'n gyfanswm o £1.5m i gyllidebau ysgolion er mwyn talu am y diffyg yn y Cyflogau Athrawon yn cael ei gymeradwyo.**

#### **7. DIWEDDARU RHAGLEN GYFALAF 2022/23**

Cafodd y Cabinet adroddiad a oedd yn amlinellu'r sefyllfa gyllidebol ddiweddaraf ar gyfer rhaglen gyfalaf 2022/23, fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2022 gan fanylu ar y prosiectau newydd a'r trosglwyddiadau i'w nodi a'u cymeradwyo gan y Cabinet.

Dywedwyd y rhagwelwyd gwariant net adrannol o £56,590k o gymharu â chyllideb net weithredol o £92,515k gan roi -£35,925k o amrywiant.

Roedd y gyllideb net yn cynnwys rhaglenni cyfalaf gwreiddiol y Cyfrif Refeniw Tai a'r Gronfa Gyffredinol a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 2 Mawrth, 2022 a llithriad o 2021/22. Nodwyd bod rhai cyllidebau hefyd wedi cael eu diwygio yn unol â'r gwahaniaethau yn y dyraniadau grant o gymharu â'r dyraniadau disgwylidig pan gafodd y rhaglen ei chymeradwyo'r dyfarniadau grant newydd a gafwyd yn ystod y flwyddyn hyd yn hyn.

Nodwyd bod Atodiad B yn manylu ar y prif amrywiannau ym mhob adran.

#### **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

- 7.1 bod yr adroddiad ar ddiweddarau'r rhaglen gyfalaf yn cael ei dderbyn.**
- 7.2 bod y prosiectau newydd, fel yr oeddent yn yr adroddiad, yn cael eu nodi a'u cytuno.**

#### **8. POLISI CARTREFI GWAG - EIN DULL O DDEFNYDDIO CARTREFI GWAG UNWAITH ETO**

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn darparu cyflwyniad i'r Polisi Cartrefi Gwag a fydd yn gosod gweledigaeth a rhaglen waith y Cyngor wrth fynd i'r afael â chartrefi preswyl preifat gwag o fewn y Sir am y 3 blynedd nesaf. Roedd yr adroddiad yn darparu cyfeiriad clir o ran y dull gweithredu a lle y byddai ein hymdrechion yn canolbwyntio er mwyn cyflawni hyn a nodau polisi eraill.

Dywedwyd bod cartrefi gwag yn adnodd a oedd yn cael ei wastraffu pan oedd prinder tai ar draws y Sir, gan gynnwys wardiau gwledig. Dywedwyd bod yr eiddo hwn yn amharu ar gymdogaethau gan o bosibl ddod yn ffocws ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Roedd y Cyngor wedi ymrwymo i aildddefnyddio tai gwag cyn gynted â phosib ac roedd wedi gweithio gyda pherchnogion cartrefi gwag a phartneriaid i gymryd yr holl gyfleoedd sydd ar gael i helpu i fynd i'r afael â mater eiddo gwag hirdymor.

Nododd Aelodau'r Cabinet y gallai aildddefnyddio tai gwag helpu i fynd i'r afael â nifer o faterion tai a phroblemau cymdeithasol drwy gynyddu'r cyflenwad mewn ardaloedd lle'r oedd prinder tai a phwysau a lle'r oedd cyfleoedd i gysylltu gyda phrosiectau adfywio eraill.

Roedd y Polisi yn nodi'r dull gweithredu a byddai'n caniatáu i swyddogion dargedu mathau penodol o eiddo, mewn ardaloedd penodol, a byddai'n rhoi eglurder a hyder o ran unrhyw gamau a gymerir.

Yn ogystal, nodwyd bod cynnydd wedi'i wneud dros y pum mlynedd diwethaf i leihau'r nifer cyffredinol o gartrefi gwag trwy weithgaredd parhaus ac annog/gorfodi perchnogion tai i'w haildddefnyddio. Y rhif presennol a adroddwyd oedd 1,984 (Medi 2022). Roedd hyn yn cynrychioli tua 2.1% o'r stoc dai cyffredinol yn y Sir.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR**

- 8.1 bod y Polisi Cartrefi Gwag - ein dull o ail-dddefnyddio cartrefi gwag yn cael ei gymeradwyo**
- 8.2 cytuno ar y weledigaeth i leihau nifer yr eiddo gwag yn y Sir i 1500 erbyn 2026.**
- 8.3 cadarnhau'r math o eiddo y byddwn yn canolbwyntio arno a'r matrices sgorio a ddefnyddir o ran eiddo gwag.**
- 8.4 cadarnhau bod y Polisi Cartrefi Gwag yn cyd-fynd â phenderfyniad y Cyngor i osod Premiymau'r Dreth Gyngor ar eiddo gwag tymor hir a'r modd y caiff hyn ei orfodi trwy'r polisi hwn.**
- 8.5 bod y mesurau perfformiad yn gyson ac yn adlewyrchu'r ymdrechion sy'n cael eu gwneud i aildddefnyddio cartrefi gwag.**

## **9. CYFRADDAU BUSNES - CYNLLUN RHYDDHAD ARDRETHI MANWERTHU, HAMDDEN A LETYGARWCH 2023/24**

[Sylwer: Roedd y Cyngorwyr A. Davies, L.D. Evans, a P.M. Hughes, wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, ac roeddent wedi ailadrodd eu datganiadau a gadael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem hon.]

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth am fabwysiadu cynllun rhyddhad ardrethi sydd ar gael i awdurdodau bilio gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24. Roedd yr adroddiad yn argymhell bod y

Cabinet yn mabwysiadu'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi 2023/24 ar gyfer Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

Mewn ymateb i'r argyfwng Coronafeirws yn 2020/21, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n cyflwyno'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch i gynyddu'r gostyngiad i 100%. Roedd y cynllun hwn hefyd yn berthnasol yn 2021/22 ac yn ogystal â'r sector manwerthu cafodd ei ymestyn i gynnwys y sectorau hamdden a lletygarwch er enghraifft siopau, tafarndai a bwytai, campfeydd, lleoliadau perfformio a gwestai.

Dywedwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y byddai'n darparu cyllid grant i bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru i ddarparu'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch i fusnesau cymwys yn 2023-24. Fodd bynnag, ar gyfer 2023/24 byddai'r cynllun yn cynnig gostyngiad o 75% ar gyfer eiddo cymwys sydd wedi'i feddiannu. Nodwyd y byddai'r cynllun yn berthnasol i bob busnes cymwys; fodd bynnag, byddai'r rhyddhad yn destun cap o ran y cyfanswm y gallai pob busnes ei hawlio ar draws Cymru. Cyfanswm y rhyddhad fyddai £110,000 ar gael ar draws pob eiddo sydd wedi ei feddiannu gan yr un busnes.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu'r mathau o fusnes yr oedd yn eu hystyried yn briodol ar gyfer y cynllun rhyddhad hwn, yn ogystal â'r rhai nad oeddent yn eu hystyried yn briodol. Roedd y rhestr anghyflawn o fathau o fusnes wedi'i hatodi i'r adroddiad yn Atodiad A.

Dywedodd Aelodau'r Cabinet, ei bod yn briodol i'r cynllun gael ei fabwysiadu'n ffurfiol, gan mai mesur dros dro oedd hwn ac y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu'r rhyddhad drwy ad-dalu Awdurdodau Lleol sy'n defnyddio eu pwerau disgrisiwn o dan Adran 47 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

#### **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

- 9.1 mabwysiadwyd y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch ar gyfer 2023/24**
- 9..2 bod Rhyddhad yn cael ei roi, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru**
- 9.3 bod yr Aelod Cabinet dros Adnoddau yn penderfynu ynghylch unrhyw geisiadau nad ydynt o fewn cwrpas penodol y canllawiau neu y bydd angen rhoi ystyriaeth benodol iddynt.**

#### **10. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM DROSGLWYDDO ASED AU CYMUNEDOL**

Cafodd y Cabinet adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad ynghylch y sefyllfa bresennol yn ymwneud â throsglwyddo asedau o ran parciau a meysydd chwarae gan dynnu sylw hefyd at y mynegiannau o ddiddordeb ychwanegol a gafwyd.

Dywedwyd bod dogfen Gweithdrefnau Trosglwyddo Asedau Cymunedol y Cyngor hefyd wedi'i hadolygu'n ddiweddar a'i bod wedi'i diweddarau i ystyried yr heriau a wynebwyd hyd yma a'r gwersi a ddysgwyd wrth ymdrin â throsglwyddo

asedau amrywiol dros y blynyddoedd. Byddai'r Gweithdrefnau newydd yn disodli fersiwn 2013-2016.

Nodwyd bod proses ymgynghori wedi'i chynnal gyda'r Cyngor Tref a Chymuned ddechrau'r flwyddyn gyda holiadur yn cael ei anfon at bob Cyngor yn gofyn am sylwadau ynglŷn â'u profiadau hyd yma. Roedd eu sylwadau wedi cael eu cynnwys yn y ddogfen newydd.

#### **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

- 10.1 nodi statws presennol trosglwyddo asedau o ran parciau a meysydd chwarae;**
- 10.2 bod y ddogfen Gweithdrefnau Trosglwyddo Asedau Cymunedol sydd wedi'i diweddarau yn cael ei chymeradwyo a'i mabwysiadu**

#### **11. PENODI LLYWODRAETHWR AR RAN YR A. LL.**

[NODER: Roedd y Cynghorydd G. Davies wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd y cyfarfod cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno.]

Dywedwyd wrth y Cabinet, yn unol â pholisi penodi'r Awdurdod Lleol ar gyfer Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol, lle mae swyddi gwag Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn bodoli neu ar fin codi, gwahoddir enwebiadau gan Gadeirydd y Corff Llywodraethu, y Pennaeth a'r Aelod Etholedig lleol. Yn dilyn hynny, mae'r holl enwebiadau yn cael eu hystyried gan yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg, sydd yn y pendraw yn penodi.

Y Cynghorydd Glynog Davies yw'r Aelod Etholedig lleol ac ef hefyd yw Cadeirydd presennol y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Brynaman. Ni fyddai felly'n briodol i'r Cynghorydd Davies ystyried yr enwebiad ar gyfer swydd wag ar gyfer Llywodraethwr Awdurdod Lleol yn Ysgol Brynaman, yn ei rôl fel yr Aelod Cabinet ar gyfer Addysg a Phlant.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ailbenodi Mr Morgans i Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Brynaman.**

#### **12. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYD YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

---

**CHAIR**

---

**DATE**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol